CYNGOR TREF PENRHYNDEUDRAETH

Clerc: Glyn E. Roberts [redacted]

Cadeirydd: Gareth Thomas [redacted]

Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
Llawr Cyntaf
Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor
Ffordd Gwynedd
Bangor
Gwynedd
LL57 1DT

30.03.2015

Annwyl Swyddogion,

Par: Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026

Dyma ymateb Cyngor Tref Penrhyndeudraeth i'r uchod ar sail arolwg manwl a wnaed, drwy holiadur ym mis Chwefror, eleni, ac ar sail adnabyddiaeth fanwl o'r gymuned a'i hanghenion.

Er hwylustod i chi'r Swyddogion mae'r isod yn crisialu'r sylwadau mewn un darlleniad.

Mae diwylliant y maes cynllunio yn mynnu bod rhywogaethau o greaduriaid ac o blanhigion sydd wedi bod dan warchae i'w trin gyda gofal a pharch rhag eu niweidio ymhellach gan gynlluniau adeiladu a pheirianegol ac ati, i'r graddau bod gorchmynion amddiffyn a chadwraeth yn cael eu rhoi arnyn nhw a rheini'n cario grym statudol. A'r un modd gyda rhai mathau o adeiladau.

Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, rhwystir y drefn gynllunio rhag rhoi yr un ystyriaeth a pharch i'r Gymraeg. Er ei bod hithau dan warchae trwm ac ar encil, gorfodir hi i fod y tu allan i'r diwylliant cynllunio. Mae'r drws wedi ei gau yn ei herbyn.

A hithau yn y caethgyfle hwnnw, thâl cusanu gofidiau a sôn am fesurau lliniaru ddim. Mae angen llawer amgenach ymateb. Dim llai na'i chynnwys o fewn y diwylliant cynllunio a'i chyfri yn un o'r elfennau craidd sy'n gymwys i'w hamddiffyn drwy nawdd statudol.

Gyda hynny mewn golwg, adeiladu tai yn ôl anghenion trigolion ein cymunedau yn unig a ddylid ac nid yn ôl rhagamcanion system y mae ei bwriadau'n groes i hynny.

.....

Does dim arwydd bod awduron y Cynllun Datblygu yn gwybod am anawsterau moduro yn strydoedd Penrhyndeudraeth. Pe baen nhw, go brin y bydden nhw wedi penderfynu diwallu anghenion tai Porthmadog drwy adeiladu yma.

Dydy' cyfeirio at nifer y tai sydd i'w codi ar gyfartaledd blynyddol dros gyfnod y Cynllun ddim yn golygu mai fesul y nifer hwnnw y caen nhw eu hadeiladu. Gallai adeiladwyr godi llawer rhagor na hynny mewn cyfnod byr, degau neu ugeiniau a thrwy hynny gynyddu anawsterau gofodol canol y pentref oherwydd:-

- mae parcio'n broblem fawr yma;
- nad oes le i ehangu'r ysgol pe bai cynnydd sylweddol yn nifer y plant;
- bydd cynnydd sylweddol yn y drafnidiaeth drwy Benrhyndeudraeth pan gwblheir y Bont Briwet newydd sy'n sicr o arafu symudiad cerbydau ar hyd y briffordd drwy'r pentref;
- gallai greu anhawster i'r rhai sydd eisiau mynediad i le parcio'r feddygfa, hefyd. Dyma'r fan y trawyd plentyn gan gerbyd ddoe ddiwethaf (Mawrth 20fed 2015) a bu'n rhaid ei gludo i Ysbyty Gwynedd.

Gan hynny bydd ymdopi ag anghenion tai trigolion Penrhyndeudraeth ei hun yn ddigon heb ychwanegu atynt.

Y mae angen rhoi ystyriaeth ddwys i'r materion gofodol a thrafnidiol hyn.
Papur Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2 Penrhyndeudraeth

Dylai'r ffaith mai dim ond cynnydd o 2.2% a fu yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011ym Mhenrhyndeudraeth, bod y boblogaeth rhwng 20-29 mlwydd oed wedi gostwng 6.1% tra bod y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 16% a nifer y mewnfudwyr wedi codi o 169 i 242 (+43.2%) rhwng 1991 a 2001
(Byddai dadansoddiad o ffigyrau 2001-2011 wedi dangos cynnydd mwy eto, fyth.) fod yn canu clychau yn glir a thaer.

Nid sefyllfa i ymgysuro ynddi ydyw sefyllfa'r Gymraeg ym Mhenrhyndeudraeth, bellach.
Mae'r ysgrifen ar y mur yn sobreiddiol o glir a phendant wrth i ganran ei siaradwyr sicr-lithro tua'r trothwy, os nad tanno, ar ôl pymtheng mlynedd arall o fewnfudo ers 2001.

Yn wyneb hyn, y mae'r frawddeg
' Fodd bynnag, nid yw'r mewnfudiad i weld fel ei fod yn broblem arwyddocaol wrth ystyried fod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu dros yr un cyfnod (2.2% !)' ar gyfeilrion yn llwyr. Cadarnheir hynny gan y frawddeg ganlynol, yn yr adran Casgliadau,
'Er bod nifer siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu (2.2%) rhwng 2001 a 2011 ***gwelwyd gostyngiad yng nghanran siaradwyr dros yr un cyfnod'***
Yma, fe ddylid bod wedi cyfeirio eto at absenoldeb ffigyrau 2001-2011. Heb amheuaeth byddai'r rheini wedi dangos cynnydd sylweddol yn nifer y mewnfudwyr. Ni ellir osgoi'r casgliad bod yma anghysondeb a chroesddweud ac anallu i sylweddoli arwyddocâd ystadegau.

Mae'r rhai ohonom sydd yn byw ym Mhenrhyndeudraeth ac sydd wedi byw yma erioed, yn gwybod beth yw maint y newid yn y boblogaeth, y newid a fu ac sy'n parhau i ddigwydd, a hynny heb help unrhyw arolwg am ei fod yn rhywbeth gweladwy a chlywadwy beunyddiol. Golygu y mae hynny, wrth gwrs, bod newid demograffig sylweddol ar droed; mae'n golygu hefyd, y dylai cyfrifoldeb ieithyddol a diwylliannol cynllunwyr fod yn fater cydwybod.

Enghraifft arall, amlwg, o anghysondeb ydyw hwnnw lle y cyfeirir at y ganran o boblogaeth Penrhyndeudraeth sy'n medru'r Gymraeg. Mae'r trydydd pwynt bwled yn nodi bod 74.8% o'r boblogaeth yn ei medru, sydd yn 4.8% yn uwch na'r trothwy, ond yn yr adran 'Casgliadau' nodir mai 76.5% a 6.5 % ydyw'r canrannau.
Pa un sy'n gywir ?

Oherwydd camganfyddiadau ac anghysondebau y papur asesu yma, cyfrifoldeb y Cyngor hwn yw ei wrthwynebu ac annog ei dynnu'n ôl.

Gweler y furflenni ymateb swyddogol isod:-

		Defnydd swyddfa yn unig: *Rhif Cynrychiolydd:* *Dyddiad derbyn:* *Dyddiad cydnabod:*

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Adnau Ynys Môn a Gwynedd 2011-2026

Ffurflen Sylwadau

Diogelu Data - Y modd y bydd eich sylwadau a'r wybodaeth a roddwch i ni yn cael eu defnyddio.

Bydd yr holl wybodaeth a gyflwynir yn cael ei gweld yn llawn gan staff yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd sy'n ymdrin â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd). Bydd eich enw a'ch sylwadau fel y maent wedi'u nodi yn eich ffurflen sylwadau yn cael eu cyhoeddi, ynghyd ag ymateb y Cyngor. Bydd hyn yn gymorth i ddangos fod yr ymgynghoriad wedi'i wneud yn iawn. Nodwch hefyd y gall y ffurflen hon gael ei rhoi i unrhyw Ymchwiliad Cyhoeddus ar y CDLl ar y Cyd.

Byddai'n well gennym pe baech yn cyflwyno'ch sylwadau'n uniongyrchol ar-lein. Fel arall, gellir llenwi fersiwn electronig o'r ffurflen hon ar-lein yn www.gwynedd.gov.uk/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll. Dylech lenwi ffurflenni ar wahân ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud.

Cewch ffurflenni sylwadau ychwanegol gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd drwy ffonio 01286 685003 neu gellir eu llawr lwytho o wefan y Cyngor yn: **www.gwynedd.gov.uk/cdll** neu **www.ynysmon.gov.uk/cdll** neu gallwch lungopïo'r ffurflen hon. Wrth wneud sylwadau, defnyddiwch dudalennau ychwanegol os oes angen, gan nodi rhif y dudalen yn glir.

RHAN 1: Manylion cyswllt

	Eich manylion/ Manylion eich cleient	**Manylion yr Asiant (os yw hynny'n berthnasol)**
Enw	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth	
Cyfeiriad	d/o Clerc [redacted]	
[redacted]	[redacted]	
Rhif Ffôn	[redacted]	
Cyfeiriad e-bost	[redacted]	

Nodiadau Canllaw

Rhowch eich sylwadau yn Rhan 2 y ffurflen hon. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os oes angen.
Dylech lenwi ffurflenni ar wahân ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud.

Mae **Cwestiwn 2dd a 2e** yn gofyn am eich barn ar gadernid y Cynllun Adnau. Rhoddir manylion am y profion cadernid a gwybodaeth ychwanegol ar sut cânt eu defnyddio ar dudalen olaf y ffurflen hon.

Os hoffech i newidiadau gael eu gwneud i'r Cynllun Adnau, gofynnwn i chi fod mor benodol â phosib. Er enghraifft, os hoffech i destun newydd gael ei ychwanegu, nodwch y testun newydd ac esboniwch ymhle yr hoffech ei weld yn y Cynllun Adnau a pham. Hefyd, os hoffech ychwanegu polisi neu baragraff newydd neu eu haddasu, nodwch yn glir beth yw'r testun newydd ac esboniwch ymhle yr ydych chi'n meddwl y dylai fynd yn y Cynllun Adnau a pham.

Os hoffech gael gwared o safle neu gynnig addasiadau i safle sydd wedi'i ddynodi yn y Cynllun Adnau neu os hoffech gynnig safle newydd, gofynnwn i chi atodi cynllun graddfa 1:1250 neu 1:2500 sy'n nodi'n glir ffiniau'r safle. Os ydych yn cynnig safle newydd (un nad yw wedi'i gynnwys yn y Cynllun Adnau) rhaid i chi gynnwys asesiad safle manwl gyda'r ffurflen sylwadau yn unol â methodoleg asesu Safle Arfaethedig y Cyngor a'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd. Cewch hyd i'r fethodoleg asesu Safle Arfaethedig a'r fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd ar wefan y Cyngor yn: **www.gwynedd.gov.uk/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll.**

Cewch wybodaeth bellach ar y mater hwn gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ar **01286 685003** neu ar wefan y Cyngor yn: **www.gwynedd.gov.uk/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll** yn y llyfryn 'Canllawiau Safleoedd Amgen'.

Os yw newidiadau arfaethedig i gynllun datblygu yn cael effeithiau sylweddol ar gynaliadwyedd, bydd gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth Arfarnu Cynaliadwyedd berthnasol. Rhaid i'r wybodaeth hon fod yn gyson ag ystod a lefel manylder yr Arfarniad Cynaliadwyedd a gynhelir gan y Cynghorau. Dylai hefyd gyfeirio at yr un wybodaeth waelodlin wrth adnabod effeithiau sylweddol tebygol y polisi diwygiedig neu'r safle newydd.

Dylech gynnwys eich holl sylwadau ar y Cynllun Adnau gan nodi eich achos llawn ar y ffurflen swyddogol, gan ddefnyddio dogfennau ychwanegol os oes angen. Os ydych am weld mwy nag un newid ac yn ystyried nad yw'r Cynllun Adnau yn bodloni mwy nag un prawf cadernid, **dylech lenwi ffurflenni ar wahân ar gyfer pob sylw.** Yn yr un modd, os ydych am wneud sylwadau i gefnogi'r Cynllun Adnau neu elfennau unigol o'r Cynllun Adnau byddai'n ddefnyddiol pe baech yn gwneud y sylwadau hyn ar wahân. Nodwch os ydych yn cyflwyno deunydd arall i gefnogi'ch sylwadau.

Yr unig adeg y bydd gennych gyfle i gyflwyno gwybodaeth bellach i'r Ymchwiliad yw os yw'r Arolygwr yn eich gwahodd i ymateb i faterion y mae ef neu hi wedi'u codi. Nodwch na fydd gan yr Arolygwr sylwadau yr ydych wedi'u gwneud mewn ymateb i ymgynghoriadau blaenorol. Os nad ydych yn ystyried bod y Cynllun Adnau yn gadarn ac y dylid ei newid, esboniwch yn glir pam ydych chi'n meddwl bod angen y newidiadau. Os ydych yn meddwl bod angen gwneud newidiadau er mwyn i'r Cynllun Adnau fodloni un neu fwy o'r profion cadernid, dywedwch wrthym pa un / pa rai.

Os yw grŵp yn rhannu barn gyffredin ynghylch sut mae'n dymuno i'r Cynllun Adnau gael ei newid, bydd y Cynghorau'n derbyn deiseb wedi'i llofnodi. Wrth gyflwyno ffurflen sylwadau ar ran grŵp, dylai'r ffurflen sylwadau gynnwys manylion cyswllt unigolyn arweiniol yn Adran 1 a dylid nodi'r sylwadau'n glir ar y ffurflen sylwadau. Dylai'r ddeiseb sydd wedi'i llofnodi

nodi'n glir faint o bobl sy'n cael eu cynrychioli a sut mae'r sylwadau wedi'u hawdurdodi. Nid yw llofnodi deiseb yn atal neb rhag cyflwyno ffurflenni unigol.

RHAN 2: Eich Sylwadau a Newidiadau a Awgrymir. *(Defnyddiwch un adran Rhan 2 ar gyfer pob sylw yr hoffech ei wneud)*

2a. Ar ba ran o'r Cynllun Adnau yr ydych chi'n gwneud sylwadau?	
Polisi rhif *(nodwch)*	
Paragraff rhif *(nodwch)*	**Taflen *Asesu Canolfannau Gwasanaeth Leol - Haen 2 Penrhyndeudraeth***
Cynigion/ Map Mewnosod *(nodwch y rhif cyfeirnod)*	Map 26 Penrhyndeudraeth a Minffordd
Map Cyfyngiadau	
Atodiadau *(nodwch)*	

2b. A ydych yn gwrthwynebu neu gefnogi?			
Gwrthwynebu	☐ √	Cefnogi	☐

2c. Rhowch fanylion eich sylwadau ar y Cynllun Adnau.

Cyd-destun
Taflen '*Asesu Canolfannau Gwasanaeth Lleol – Haen 2 Penrhyndeudraeth*

<u>Sylwadau</u>
Nid yw'r strategaethau a'r bwriadau arfaethedig wedi'u seilio ar sail tystiolaeth gredadwy yn unol â Phrawf Cadernid CE2. Mae yma anghysondebau a chroesddweud ac anallu i sylweddoli arwyddocâd ystadegau.

Mae'r frawddeg **'*Fodd bynnag, nid yw'r mewnfudiad i weld fel ei fod yn broblem arwyddocaol wrth ystyried fod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu dros yr un cyfnod (2.2%!)*** ar gyfeilrion yn llwyr.
Cadarnheir hynny gan y frawddeg ganlynol, yn yr adran Casgliadau, ***'Er bod nifer siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu (2.2%) rhwng 2001 a 2011 gwelwyd gostyngiad yng nghanran siaradwyr dros yr un cyfnod'***

Hefyd, lle y cyfeirir at y ganran o boblogaeth Penrhyndeudraeth sy'n medru'r Gymraeg, mae'r trydydd pwynt bwled yn nodi bod 74.8% o'r boblogaeth yn ei medru, sydd yn 4.8% yn uwch na'r trothwy, ond yn yr adran 'Casgliadau' nodir mai 76.5% a 6.5 % ydyw'r canrannau. Pa un sy'n gywir ?

Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os bydd angen.
Nodwch faint o dudalennau ychwanegol rydych wedi'u defnyddio.....

2ch. Os yw eich sylw yn 2c yn fwy na 100 o eiriau, darparwch grynodeb os gwelwch yn dda (dim mwy na 100 o eiriau.

2d Rhowch fanylion y newidiadau yr hoffech eu gweld i'r Cynllun Adnau

Oherwydd camganfyddiadau, anghysondebau, a chroes ddweud y papur asesu hwn, ynghyd â gwybod na wnaed arolwg manwl o anghenion tai cymunedau Penrhyndeudraeth a Minffordd nag o union anghenion tai cymuned Porthmadog, cyfrifoldeb y Cyngor hwn yw ei wrthwynebu ac annog ei dynnu'n ôl.

2dd. Ydi'r Cynllun yn gadarn?

Ydi	☐	Nac ydi	☐ √

2e. Os ydych chi'n meddwl nad yw'r Cynllun Adnau yn gadarn, pa brawf cadernid ydych chi'n meddwl y mae'n ei fethu? (Ticiwch isod os gwelwch yn dda) *Rhoddir mwy o fanylion am y profion cadernid ar gefn y ffurflen hon*

Gweithdrefnol				***Cysondeb***								***Cydlyniad ac Effeithiolrwydd***							
P1	☐	***P2***	☐	***C 1***	☐	***C2***	☐	***C3***	☐	***C 4***	☐	***C E1***	☐	***C E2*** √	☐	***C E3***	☐	***C E4***	☐

Rhan 3: Beth sy'n digwydd nesaf?
Ar y cam hwn o broses y CDLl ar y Cyd, dim ond sylwadau ar bapur y gallwch eu gwneud (a elwir yn 'sylwadau ysgrifenedig'). Fodd bynnag, gall yr Arolygwr alw ar y rheini sydd am newid y Cynllun i ymddangos a siarad â'r Arolygwr mewn 'sesiwn gwrandawiad' yn ystod yr Ymchwiliad Cyhoeddus. Dylech gofio y bydd yr Arolygwr yn rhoi'r un pwys i'ch sylwadau ysgrifenedig ag i'r rheini a wnewch ar lafar yn y sesiwn gwrandawiad.

3a. A ydych am i'ch sylwadau gael eu hystyried fel 'sylwadau ysgrifenedig' neu a hoffech siarad mewn sesiwn gwrandawiad yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus? *(Ticiwch un o'r isod)*	
Nid wyf am siarad mewn sesiwn gwrandawiad ac rwy'n fodlon i'm sylwadau ysgrifenedig gael eu hystyried gan yr Arolygwr.	☐ √
Hoffwn siarad mewn sesiwn gwrandawiad.	☐

3b. Os hoffech siarad, cadarnhewch pam rydych yn ystyried ei bod hi'n angenrheidiol i chi siarad yn y Gwrandawiad.	
3c. A fyddech yn hoffi cael gwybod am y canlynol (Ticiwch y blychau perthnasol)	
Cyflwyno'r dogfennau a'r dystiolaeth i'r archwiliad	☐ √
Cyhoeddi adroddiad yr Arolygydd	☐ √
Mabwysiadu'r Cynllun	☐ √
Os ydych wedi darparu dogfennau ychwanegol i gefnogi'ch sylwadau, rhestrwch hwy isod:	
Mae tua 200 o holiaduron ar gael ar gais	

Llofnod: GLYN E. ROBERTS	**Dyddiedig:** 30.03.2015

DIOLCH AM EICH SYLWADAU AR Y CYNLLUN ADNAU

Cofiwch gynnwys unrhyw ddogfennau perthnasol (e.e. Arfarniad Cynaliadwyedd) gyda'r ffurflen hon.

Dylech ddychwelyd ffurflenni sylwadau wedi'u llenwi i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd:

AR-LEIN – drwy lenwi'r ffurflen electronig yn www.gwynedd.gov.uk/cdll neu www.ynysmon.gov.uk/cdll
DRWY E-BOST - polisicynllunio@gwynedd.gov.uk
DRWY'R POST - ei hanfon i: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Llawr Cyntaf, Swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Ffordd Gwynedd, Bangor, Gwynedd LL57 1DT

DYLECH DDYCHWELYD Y FFURFLENNI SYLWADAU DDIM HWYRACH NA 5.00yh ar 31 Mawrth 2015
NI FYDD SYLWADAU A DDERBYNNIR WEDI'R AMSER A'R DYDDIAD YMA YN CAEL EU HYSTYRIED

Profion Cadernid

Prawf	Profion Gweithdrefnol
P1	Nid yw wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni yn cynnwys y Cynllun Cyswllt Cymunedol.
P2	Nid yw'r cynllun a'i bolisïau wedi bod drwy Arfarniad Cynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol.
	Profion Cysondeb
C1	Mae'n gynllun defnydd tir nad yw'n rhoi ystyriaeth i gynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r ardal neu ardaloedd cyfagos.
C2	Nid yw'n rhoi ystyriaeth i bolisi cenedlaethol.
C3	Nid yw'n rhoi ystyriaeth i Gynllun Gofodol Cymru.
C4	Nid yw'n rhoi ystyriaeth i'r strategaeth gymunedol berthnasol.
	Profion Cydlyniad ac Effeithiolrwydd
CE1	Nid yw'r cynllun yn gosod strategaeth gydlynol ble mae ei bolisïau a'i ddynodiadau yn llifo'n rhesymegol ohono a/neu pan fo materion trawsffiniol yn berthnasol, nid yw'n gydnaws â'r cynlluniau datblygu a ddarparwyd gan awdurdodau cyfagos.
CE2	Nid yw'r strategaethau, y polisïau na'r dynodiadau'n realistig nac yn briodol o ystyried y dewisiadau amgen a/neu nid ydynt wedi'u seilio ar sail tystiolaeth gredadwy.
CE3	Nid oes mecanwaith clir ar gyfer gweithredu a monitro.
CE4	Nid yw'n rhesymol hyblyg i alluogi iddo ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid.

~~Noda Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 mai pwrpas ymchwiliad i Gynllun Datblygu Lleol~~ (y Cynllun) yw ystyried a yw'n "gadarn". Golyga hyn y dylai unrhyw un sydd am roi sylwadau ar y Cynllun Adnau neu wrthwynebu iddo geisio dweud pam nad yw'n gadarn a beth sydd ei angen er mwyn ei wneud yn gadarn. Yn y cyd-destun hwn, gellir ystyried cadarn i olygu ei ystyr gwreiddiol o *"dangos barn dda"* a *"y gellir ymddiried ynddo"*. Er mwyn asesu'r Cynllun Adnau, rydym yn defnyddio'r 10 prawf uchod. Bydd y Cynllun Adnau yn cael ei archwilio gan Arolygwr annibynnol a benodir gan Lywodraeth Cymru a thasg yr Arolygwr fydd ystyried a yw'r Cynllun yn gadarn.

Os ydych yn cynnig newid i'r Cynllun Adnau, fe ddylech nodi'n glir pa brawf/brofion cadernid y credwch y mae'r Cynllun Adnau yn ei fethu/eu methu. Mae'r profion mewn tri grŵp – 'Gweithdrefnol' (dau brawf); 'Cysondeb' (pedwar prawf)' a 'Cydlyniad ac Effeithiolrwydd' (pedwar prawf). Os hoffech wneud sylwadau ar y ffordd y mae'r Cynghorau wedi paratoi'r Cynllun Adnau, mae'n debygol y byddai'ch sylwadau neu'ch gwrthwynebiadau yn disgyn o dan un o'r profion gweithdrefnol. Os hoffech wneud sylwadau neu wrthwynebu i gynnwys y Cynllun Adnau, gallai fod yn gymorth i chi edrych ar y profion 'cysondeb' a 'cydlyniad ac effeithiolrwydd'.

Sylwadau Dros y We / Representations via the Internet

Rhif Sylw / Rep Id: **50**

Enw / Name: **Cynghorydd Charles Jones [2621]**

Rhan: **POLISI TAI15**

Section: **POLICY TAI15**

Math / Type: **Cefnogi / Support**

Crynodeb o'r Sylw:

Bodlon efo'r ffordd mae'r ffin ddatblygu wedi cael ei dynnu.

Representation Summary:

Satisfied with the way the development boundary has been drawn.

Sylw Llawn / Full Representation:

Bodlon efo'r ffordd mae'r ffin ddatblygu wedi cael ei dynnu.

Newid(iadau) i'r Cynllun

.

Change(s) to the Plan

Profion Cadernid / Soundness Tests: None

Sylwadau Dros y We / Representations via the Internet

Rhif Sylw / Rep Id: **316**

Enw / Name: **mr paul green [2908]**

Rhan: **POLISI TAI15**

Section: **POLICY TAI15**

Math / Type: **Gwrthwynebu / Object**

Crynodeb o'r Sylw:

Dylai dyrannu tai i Lanfair-pwll, Porthaethwy, Llandegfan a Biwmares adlewyrchu eu cysylltiad â hyb rhanbarthol Bangor. Dylid rhai o'r tai sydd wedi cael ei ddynodi yng Nghaergybi, Amlwch a Llangefni cael ei ddynodi yn yr anheddloedd ar hyd yr Afon Menai.

Representation Summary:

The allocation of development to Lllanfairpwll, Menai Bridge, Llandegfan and Beaumaris should reflect their connection to the Bangor regional hub. Some of the housing currently allocated to Holyhead, Amlwch and Llangefni should be allocated to the settlements along the Menai Strait.

Sylw Llawn / Full Representation:

The plan does not sufficiently recognise the importance of the settlements around Bangor in supporting the regional centre. As a result too much development has been allocated to peripheral areas where economic factors mean that development is uncertain. For example the number of units unlikely to be developed in Holyhead suggests that demand for housing there is weak. On the otherhand the communities of Llanfairpwll, Menai Bridge, Llandegfan and Beaumaris fubnction as part of the Bangor hub and their role in providing accomodation for workers at the Hospital, University and large employers at (for example Parc Menai) should be recognised.

The allocation of housing units to these settlements along the Menai Strait should reflect their contribution to the regional hub not their assumed position in the hierarchy.

By increasing housing availablity in these settlements (especially affordable housing) the opportunity for current residents of outlying settlements to find accoumodation within sensible/affordable commutuing distance of Bangor (where most economic development will happen)is increased.

The plan is not sound.

It fails to take into account that the Wales Spatial Plan identifies a regional hub around Bangor which covers both sides of the Menai Strait. The communities in this hub should have been treated as a single entity.

The reality that there is a small conurbation embracing Bangor and the Menai Strait communities has not been taken into account. As a result the plans for this area are not rational. The plan treats settlements as unconnected entities which they are clearly not.

I recognise that incoming economic development will be directed at Amlwch, Holyhead and Llangefni. However the recently announced job losses (matched by announcement of similiar jobs in Wrexham) and please for more units in Llandudno Junction shows the economic reality that jobs tend to go to central not peripheral areas. Wylfa B will make a big diffeerence and needs to be served but whether it happens or not depends on factors beyond the control of local or even welsgh government. The current allocation of development puts too many eggs in one basket and is not sufficiently flexible to deal with the likelihood that Bangor and Llandudno Junction will increasingly be the centre of economic activity.

At a time of austerity in local government it is increasingly difficult to provide services to a widely and thinly distributed population. Development should be encouraged to concentrate in areas where key public services (refuse collection, leisure centres, schools) can be provided in a sustainable way.

Sylwadau Dros y We / Representations via the Internet

Newid(iadau) i'r Cynllun

.

Change(s) to the Plan

Some of the housing currently allocated to Holyhead, Amlwch and Llangefni should be allocated to the settlements along the Menai Strait.

Profion Cadernid / Soundness Tests: x, v, viii

Rhestr Wirio Sylwadau Cynllun Adnau

Cyfeirnod Person: 3033

Cyfeirnod y Sylw: 754.

Dyddiad Derbyn: 30/3/15.

---

1) Mewnbynnu

A yw'r sylw ac atodiadau (sy'n cynnwys copi o'r ffurflen wreiddiol) wedi'i fewnbynnu i'r system JDi? (Y) / N

Dyddiad: ..... Swyddog: AR

Oes angen grynhoad? Y / (N)

Ydy'r crynhoad yn gywir? (Y) / N (angen siecio fod y newid maent ei angen yn y crynhoad)

Dyddiad llythyr crynhoad sylwadau wedi'i yrru: –

Dyddiad dderbyn ateb .....: –

Dyddiad addasu'r crynhoad mewn ymateb i sylwadau'r gwrthwynebydd .....

---

2) Cyfieithu

Dyddiad gyrru i'r Uned Cyfieithu: .....

Dyddiad dderbyn y cyfieithiad: .....

A yw'r cyfieithiad wedi'i mewnbynnu i'r system JDi? Y / N Dyddiad: .....

---

3) Cadarnhau'r Sylw

A yw'r sylw wedi ei gadarnhau ar y System JDi? Y / N Dyddiad: .....

Nodyn:

REP NO: ID:

Davies Nia Haf (Rh-CTGC) NEED TO SCAN

From: [redacted]
Sent: 30 March 2015 19:43
To: Polisi Cynllunio
Subject: LDP comments
Attachments: LDP.doc

The attached document are my written representations on the joint LDP for Gwynedd and Mon.

I do not wish to speak at the hearing session.

Rob Booth
[redacted]

Ant In general I am pleased to see that the documents refer to sustainable developments and seeks to ensure that communities are healthy and vibrant places with natural landscapes and culture.

Written Statement
Key Issues10, on page 36, is "rationalization and centralization of education and health facilities" will not benefit communities and it will result in a decrease in facilities for the local community, especially communities with an aging population. The rationalization and centralization of health and education facilities will lead to a greater number of people requiring to travel and more car journeys. Key Issue 10 is conflicting with Key Issue 11 "Promote opportunities for people to live healthy lives and have reasonable health care, especially in a healthy population". Again Key Issue 10 for the rationalization of schools and health care is not appropriate for one of the strategic policies under PS5 on p.75 point 4 "Promote greater self-containment of centres and villages by contributing to balanced communities that are supported by sufficient services..." I want Key Issue 10 removed.

p.37 Key Issue 20 is the decline in the prosperity and vitality of town centres. This has occurred due to large supermarkets and business parks being built out of town centres. Out of town shops and offices encourage the use of cars. I suggest a policy that favours retaining shops and business in town centres and does not increase the development of business parks and supermarkets outside of towns and villages.

Page 40. It is very disappointing to see that Gwynedd and Anglesey Council have a vision that includes a new nuclear power station, the building of a new nuclear power station has great risks as we have seen in the recent disaster at Fukushima. The enormous risk to our homes, culture and tourism is great. A new power station would need many major associated developments such as housing for the construction workers and infrastructure (e.g. roads, pipers and pylons). The building of the nuclear power station will affect the Welsh culture due to the influx of temporary construction workers. Nuclear power is not sustainable, it requires toxic fuel and the waste is very problematic.

On p. 46 in table 8 on of the main elements of the strategy is economic growth. Economic growth is not sustainable. I suggest that the main strategy should seek to maintain economic status.

Housing: there should be more housing that is part of a housing association. The policies should emphasize the requirement for social and mixed housing. All housing developments should include a proportion of social housing i.e. houses that belong to housing associations.

Policy TAI10 p.146 there should be ***NO*** open market houses outside the development boundary.

p.156 Policy TAI14 &TAI 15 should state that developments of more than 9 houses must include at least 10% of houses that are affordable. Developments of more than 20 houses must include at least 20% of affordable houses, developments of more than 50 houses should include 30% of affordable housing/housing association houses and developments of 100 or more should include 50% of affordable/housing association houses.